RHEOLIADAU CYNLLUNIO GWLAD A THREF (ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL) (CYMRU A LLOEGR) 2017: RHEOLIAD 24 (fel y'i diwygiwyd)

HYSBYSIAD O WYBODAETH BELLACH A GWYBODAETH ARALL MEWN PERTHYNAS Â CHANIATÂD CYNLLUNIO GYDA DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

****

Cais Cynllunio Rhif	**18/01705/MJR**
Ymgeisydd:	**Rightacres Property Company Ltd**
Datblygiad Arfaethedig:	**ADEILADU CYFNEWIDFA DRAFNIDIAETH GYDA MYNEDFA GYSYLLTIEDIG AC UNEDAU MANWERTHU/MASNACHU ATODOL (DOSBARTHIADAU DEFNYDD A1/A2/A3), 305 FFLAT BRESWYL (DOSBARTH DEFNYDD C3), 10,318 METR SGWÂR (GIA) O OFOD LLAWR SWYDDFA (DOSBARTH DEFNYDD B1), MAES PARCIO 249 LLE, TIR CYHOEDDUS A SEILWAITH CYSYLLTIEDIG A GWAITH PERIANYDDOL**
Yn:	**SAFLE'R HEN DŶ MARLAND A MAES PARCIO NCP, SGWÂR CANOLOG, CAERDYDD**

****

Rhoddaf hysbysiad fod yr ymgeisydd uchod wedi cyflwyno'r **wybodaeth bellach ganlynol ar ffurf cynlluniau a dogfennau diwygiedig, ac adendwm i'r Datganiad Amgylcheddol**, i Gyngor Dinas Caerdydd fel yr Awdurdod Cynllunio perthnasol mewn perthynas â'r cais cynllunio uchod a ategir gan Ddatganiad Amgylcheddol ac fe'u cyflwynwyd i'r Cyngor ar 16/07/2018.

Gall aelodau'r cyhoedd weld copïau o'r cais, y cynlluniau, y Datganiad Amgylcheddol, y wybodaeth bellach ac unrhyw wybodaeth arall ("y dogfennau") yn swyddfeydd y Cyngor yn Rheoli Datblygu, Ystafell 201, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW yn ystod oriau swyddfa arferol rhwng 9:00am a 4:00pm ddydd Llun i ddydd Gwener cyn pen 30 diwrnod o ddyddiad y cyhoeddiad hwn. Gellir cael copïau o'r Datganiad Amgylcheddol a'r Adendwm gan Lichfields (029 20435880), Helmont House, Ffordd Churchill, Caerdydd, CF10 2HE. Bydd costau copïo ac argraffu rhesymol yn cael eu codi. Mae cryno-ddisg ar gael am ddim.

Os hoffech wneud sylwadau ewch i https://planningonline.cardiff.gov.uk/online-applications/ lle gallwch weld manylion y cais. Gellir hefyd cyflwyno sylwadau yma. Fel arall dylech anfon llythyr erbyn 27/10/2018 i'r Rheolwr Datblygu, Ystafell 201, Neuadd y Sir, Caerdydd CF10 4UW neu e-bostio: Datblygu@caerdydd.gov.uk

James Clemence
PENNAETH CYNLLUNIO

Dyddiedig: 27 Medi 2018